

## CYFLWYNIAD

Mae coed parcdir yn nodweddion deniadol a thraddodiadol o gefn gwlad Cymru. Gellir tyfu'r rhan fwyaf o rywogaethau coed hirhoedlog fel coed parcdir sy'n golygu bod modd dewis o amrywiaeth eang o goed (gweler blwch 1 am awgrymiadau). Fodd bynnag, mae yna rai rhywogaethau sy'n anaddas, yn cynnwys: bedw, poplys (ac eithrio'r boplysen ddu frodorol), helyg (oni bai eu bod yn cael eu rheoli fel tocbrennau) a gwern.

## RHEOLAETH

Mae coed parcdir yn fwy tebygol o gael eu chwythu i lawr na choed mewn coetiroedd, ond bydd coed iach sydd â systemau gwreiddiau diddifrod yn para canrifoedd. Wrth gymryd gofal yn y blynyddoedd cynnar ceir coeden sefydlog a fydd yn para'n hir. Bydd gadael trawsblaniad bach heb darfu arno yn ei leoliad terfynol yn cynhyrchu gwell system wreiddiau na choeden dal a dyfir mewn potyn. Er bod plannu coed tal yn creu canlyniadau uniongyrchol, maent yn ddrud ac yn llai cadarn yn y gwynt na thrawsblaniadau.

Mae angen amddiffyn coed newydd eu plannu rhag anifeiliaid yn pori a chystadleuaeth gan lystyfiant. Os oes da byw yn pori'r parcdir mae'n werth gosod ffens byst yn mesur 8tr (2.4metr) sgwâr o amgylch y goeden, yn bennaf er mwyn rhwystro ceffylau a gwartheg rhag ei chyrraedd, ond hefyd er mwyn atal anifeiliaid rhag cywasgu'r pridd o amgylch y goeden gan amharu ar ei thyfiant.

Mae'n well rhoi llawes blastig o amgylch y goeden i'w gwarchod rhag cwingod a llygod maes. Bydd glaswellt sy'n tyfu o amgylch y goeden ifanc yn cystadlu â hi am leithder a maethynnau. Mae'n well rheoli hyn drwy orchuddio â matiau gwellt, defnyddio chwynladdwyr neu chwynnu â llaw.

Os ydych am ddefnyddio coed tal, bydd angen eu clymu wrth bostyn. Maent hefyd yn arbennig o agored i niwed gan wiwerod llwyd, felly rhaid eu rheoli drwy eu maglu neu eu saethu. Mae rhywogaethau fel coed cnau Ffrengig a sycamorwydden yn arbennig o agored i hyn, ond gall effeithio ar bob rhywogaeth.

Mater syml yw cadw coed parcdir yn iach. Peidiwch ag aredig na thrin y tir o dan y canopi a chadwch y ffens byst er mwyn atal cywasgu ac erydu o amgylch y bôn. Bydd oed a'r elfennau yn niweidio'r coed yn y diwedd, ond ni ddylid eu cwmpo oni bai eu bod yn beryglus. Gall ceubrennau canghennog fyw am ganrifoedd gan ddarparu siâp diddorol, tyllau nythu ar gyfer adar a chynhaliaeth i sawl math o gen.

## COED FFRWYTHAU

Gellir tyfu sawl math o goed ffrwythau mewn parcdiroedd fel coed tal hirhoedlog ond mae'n bwysig dethol y rhywogaeth a'r gwreiddgyff cywir.

Cynhyrchir llawer o goed yn benodol ar gyfer gerddi bach drwy dethol neu impio ar wreiddgyff corblanhigion. Er y gall y rhain fod yn gynhyrchiol dros ben yn ifanc iawn, ni fyddant fyth yn tyfu i fod yn goed tal.

Mae coed ffrwythau addas yn cynnwys: mwyar Mair (mwyar Mair gwynion sy'n tyfu i'r coed mwyaf a gallant wrthsefyll oerni); gellyg (wedi'u tyfu ar wreiddgyff corblanhigion); afal (dewiswch fathau sy'n addas i'r lleoliad ar wreiddgyff tal ar gyfer afalau bwyta, coginio a seidr); eirin ac eirin duon (mathau dethol).



**Ffig 1: Coed parcdir ffawydd**

### Blwch 1 –rhywogaethau yr awgrymir eu defnyddio fel coed parcdir

**Llydanddail brodorol:** derw, ynn, ffawydd, pigswydd a phoplys du

**Llydanddail eraill:** - castanwydd, castanwydd melys, sycamor a choed cnau Ffrengig (Ewropeaidd ac Americanaidd)

**Conwydd:** - cedrwydd (nid cedrwydd coch y gorllewin), Wellingtonia a rhai coed pîn



**Ffig 2: Helygen wedi'i thocio**